Bioleg

Bioleg

Mae pump uned yn y fanyldeb. Mae'r lefel UG yn cael ei asesu gyda 2 arholiad ysgrifenedig gwerth 50% yr un ar gyfer lefel UG a gwerth 20% ar gyfer lefel A. Bydd y ddau arholiad yn ystod tymor yr haf blwyddyn 12. Mae'r lefel A yn cael ei asesu gyda 2 arholiad ysgrifenedig ac arholiad ymarferol. Bydd y ddau arholiad yn ystod tymor yr haf blwyddyn 13, gyda'r arholiad ymarferol l'w gwblhau yn ystod blwyddyn 13.

Cysylltwch â: Dr B. Snow

Strwythur a Chynnwys y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)	Uwch (U2)
UNED 1: Biocemeg Sylfaenol a Threfniadaeth Celloedd Mae'r uned hon yn rhoi sylw i'r fiocemeg a'r adeileddau sy'n hanfodol i organebau byw weithredu; adeiledd a swyddogaeth cyfansoddion ac ensymau biolegol; adeiledd sylfaenol celloedd a threfniadaeth; cellraniad; cellbilenni; cludiant cellbilenni. Pwysiad: UG 50% U2 20%	**UNED 3: Egni, Homeostasis a'r Amgylchedd** Mae'r uned hon yn astudio cyflenwadau egni mewn organebau byw, adeiledd a swyddogaeth y system nerfol a'r aren; astydio ecosystemau a effaith dyn ar yr amgylchedd; microbioleg . Pwysiad: 25%
UNED 2: Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau'r Corff Bwriedir i'r uned hon fod yn orolwg o amrywiaeth o organebau a dosbarthiad. Bydd myfyrwyr yn ystyried sut y mae organebau yn perthyn drwy'u hanes esblygiadol; cyfnewid nwyon; mecanweithiau cludiant o fewn y corff a maeth. Pwysiad: UG 50% U2 20%	**UNED 4: Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiynau** Mae'r uned hon yn astudio'r atgenhedlu rhywiol mewn bodau dynol; atgenhedlu rhywiol mewn planhigion; etifeddiad; amrywiad ac esblygiad; cymwysiadau atgenhedliad a geneteg. Pwysiad: 25%
Does dim arholiad ymarferol ar gyfer lefel UG. Bydd gwaith ymarferol yn cael ei gweithredu yn ystod y cwrs UG a'i nodi mewn llyfr ymarferol.	**UNED 5: Arholiad Ymarferol** Bydd gwaith ymarferol yn cael ei gweithredu yn ystod y cwrs U2 a'i nodi mewn llyfr ymarferol. Bydd CBAC yn gosod yr arholiadau ymarferol. Bydd angen cwblhau tasg arbrofol yn y labordy a tasg dadansoddol ysgrifenedig. Pwysiad: 10%

UG = 2 uned (astudir ym Ml12) gydag U2 = 3 uned (astudir ym Ml13) yn gyfartal i Lefel A llawn

Bioleg

Bioleg

Asesiad:

Blwyddyn 12 UG (2 Uned)	Blwyddyn 13 A2 (3 Uned)
Uned 1 - Arholiad 1½ awr – June Uned 2 - Arholiad 1½ awr – June	Uned 3 - Arholiad 2 awr – June Uned 4 - Arholiad 2 awr – June Uned 5 - Tasg Ymarferol 2 awr Tasg Dadansoddi Ymarferol 1 awr cwblhau yn ystod blwyddyn 13



Dilyniant 18+ :

Meddygaeth, Milfeddygaeth, Deintyddiaeth, Nyrsio, Astudiaethau Ceffylau, Dietegydd, Radiograffydd, Ffisiotherapi, Dysgu, Technegydd mewn Labordy,

Geneteg a llawer iawn mwy.

Bioleg